Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Cyhoeddwyd fersiynau diwygiedig o'r safonau, y rheolau a'r codau ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu (WGC 009/2024)

Mae fersiynau wedi'u diweddaru o'r codau, y safonau a'r rheolau ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 2 Awst 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 2 Awst 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyhoeddwyd-fersiynau-diwygiedig-or-safonau-y-rheolau-ar-codau-ar-gyfer-y-proffesiwn-rheolaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cylchlythyr rheoliadau adeiladu**

**Cylchlythyr**

**Cwmpas y cylchlythyr hwn**

**Hysbysiad am safonau, codau a rheolau diwygiedig ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu**

**Ymholiadau**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyhoeddwyd-fersiynau-diwygiedig-or-safonau-y-rheolau-ar-codau-ar-gyfer-y-proffesiwn-rheolaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cylchlythyr rheoliadau adeiladu

**Rhif y cylchlythyr**: WGC 009/2024

**Dyddiad cyhoeddi**: 02/08/2024

**Statws**: Er gwybodaeth

**Titl**: Cyhoeddwyd fersiynau diwygiedig o'r safonau, y rheolau a'r codau ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu

**Cyhoeddwyd gan**: Simon Jones, Rheolwr Cymhwysedd a Safonau Rheoli Adeiladu

**Cyfeirir at**:

Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol
Cymdeithas Cymeradwywyr Rheolaeth Adeiladu

**I'w anfon at**:

Swyddogion Rheoli Adeiladu yr Awdurdodau Lleol
Aelodau o'r Senedd

**Crynodeb:**

Mae fersiynau wedi'u diweddaru o'r codau, y safonau a'r rheolau ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r Cylchlythyr hwn yn manylu ar y newidiadau sylweddol a wnaed.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyhoeddwyd-fersiynau-diwygiedig-or-safonau-y-rheolau-ar-codau-ar-gyfer-y-proffesiwn-rheolaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â**:

Y Tîm Rheoliadau Adeiladu
2il Llawr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Llinell uniongyrchol: 0300 060 4400
E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**
Gwefan: **adeiladu a chynllunio**

# Cylchlythyr

## Hysbysiad Cymeradwyo: codau, safonau a rheolau diwygiedig ar gyfer y professiwn rheolaeth adeiladu

1. Fe'm cyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i'ch hysbysu o gyhoeddi fersiynau diwygiedig o'r safonau, y codau a'r rheolau ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu, sef:

- Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu (Cymru) 2024 fersiwn 2
- Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu (Cymru) 2024 fersiwn 2
- Rheolau Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu (Cymru) 2024 fersiwn 2
- Rheolau Safonau Gweithredol (Cymru) 2024
- Rheolau Safonau Gweithredol: Trefniadau Monitro (Cymru)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyhoeddwyd-fersiynau-diwygiedig-or-safonau-y-rheolau-ar-codau-ar-gyfer-y-proffesiwn-rheolaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cwmpas y cylchlythyr hwn

2. Mae'r cylchlythyr hwn yn berthnasol i'r proffesiwn rheolaeth adeiladu yng Nghymru.

## Hysbysiad am safonau, codau a rheolau diwygiedig ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu

3. Gellir gweld fersiynau diwygiedig o'r dogfennau safonau, codau a rheolau ar gyfer Cymru yn adran Adeiladu a chynllunio gwefan Llywodraeth Cymru yma: **www.llyw.cymru/safonau-codau-rheolau-ar-gyfer-y-proffesiwn-rheoli-adeiladu**
4. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi ar yr un wefan a chyhoeddir hysbysiad.
5. Mae mwyafrif y diweddariadau a wneir i'r fersiynau drafft yn fân newidiadau i eiriad er mwyn eglurder a chysondeb. Ceir manylion am newidiadau sylweddol isod ac mae dogfennau gyda'r holl newidiadau wedi'u tracio yn Gymraeg a Saesneg ar gael ar gais.
6. Ar gyfer Fframwaith Cymhwysedd Arolygwyr Adeiladu (Cymru) 2024 fersiwn 2, dyma'r newidiadau sylweddol:

- diwygiadau i'r disgwyliadau ar gyfer hyfforddi a goruchwylio Dosbarth 1: Arolygwyr Adeiladu o dan Hyfforddiant. Mae bellach yn gliriach bod yn rhaid goruchwylio unigolion o dan hyfforddiant dros gyfnod eu hyfforddiant
- mae rhestrau o sgiliau ar gyfer arolygwyr Dosbarth 1 a Dosbarth 2 bellach yn gynhwysfawr. Noder, bod y rhestrau cyfatebol ar gyfer arolygwyr Dosbarth 3 a Dosbarth 4 yn parhau i fod yn ddangosol oherwydd cwmpas ehangach y rolau hynny

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyhoeddwyd-fersiynau-diwygiedig-or-safonau-y-rheolau-ar-codau-ar-gyfer-y-proffesiwn-rheolaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

7. Ar gyfer Rheolau Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu (Cymru) 2024 fersiwn 2, dyma'r newidiadau sylweddol:

- eglurhad ar sut y dylid ymdrin â gwrthdaro buddiannau
- gofyniad i bersonau sy'n ymgymryd â gwaith ar ran Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu hysbysu'r Cymeradwywr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu am newidiadau i gyfyngiadau ac amodau a allai fod yn berthnasol iddynt
- mae'r rheolau cofrestru wedi'u cyfuno yn Atodiad 1 o Atodiad 3
- adolygwyd nifer o'r amserlenni ar gyfer hysbysu'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu, megis hysbysiad o dorri'r gwahanol safonau, codau a rheolau

8. Ar gyfer y Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig Adeiladu (Cymru) 2024 fersiwn 2, dyma'r newidiadau sylweddol:

- eglurhad ar sut y dylid ymdrin â gwrthdaro buddiannau
- newid i'r gofyniad am weithdrefnau cwynion ar gyfer arolygwyr adeiladu sy'n hunangyflogedig
- eglurhad ar gyfer monitro cymhwysedd y rhai y maent yn eu rheoli a/neu'n eu goruchwylio ar gyfer Dosbarth 4: Arolygwyr Adeiladu - Rheolwyr Technegol
- mae'r rheolau cofrestru wedi'u cyfuno yn Atodiad 1 o Atodiad 3
- adolygwyd nifer o'r amserlenni ar gyfer hysbysu'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu, megis hysbysiad o dorri'r gwahanol safonau, codau a rheolau

9. Ar gyfer Rheolau Safonau Gweithredol: Trefniadau Monitro (Cymru) dyma'r newidiadau sylweddol:

- diweddariad ar sut y bydd Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn cyflwyno eu data perfformiad i'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu

10. Noder bod y Rheolau Safonau Gweithredol: Trefniadau Monitro (Cymru) yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyhoeddwyd-fersiynau-diwygiedig-or-safonau-y-rheolau-ar-codau-ar-gyfer-y-proffesiwn-rheolaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

parhau i fod yn berthnasol i Gymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu yn unig ac nid awdurdodau lleol yng Nghymru.

11. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol o ran Rheolau Safonau Gweithredol (Cymru) 2024 o'r fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae'r diwygiadau a wnaed yn bennaf er mwyn sicrhau cysondeb o ran cyfeiriadau at y safonau, y codau a'r rheolau eraill.

# Ymholiadau

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r Cylchlythyr hwn i'r cyfeiriad canlynol:

Rheoliadau Adeiladu, 2il lawr, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: **enquiries.brconstruction@llyw.cymru**

Yn gywir

**Mark Tambini**

**Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu**

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyhoeddwyd-fersiynau-diwygiedig-or-safonau-y-rheolau-ar-codau-ar-gyfer-y-proffesiwn-rheolaeth-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.